Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

Pencampwyr Rhywogaethau

Sefyll dros Natur yn y Senedd

COP 16: Nodi cynnydd neu osgoi ymdrin â natur a hinsawdd?

Gan Liz Smith, Cyswllt Amgylchedd Cymru

Mae'r adeg honno o'r flwyddyn wedi cyrraedd eto, pan fydd y Cenhedloedd Unedig yn cyfarfod ar gyfer COP 16 (yng Ngholombia y tro hwn), ei chynhadledd dros natur. Dyma'r gyntaf ers cytuno ar y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yng Nghanada ddiwedd 2022, lle ymrwymodd y DU i ddiogelu 30% o'r tir a'r môr erbyn 2030, yn ogystal â thorri yn eu hanner gemegau niweidiol fel plaladdwyr a maetholion gormodol, a rhoi diwedd ar gymorthdaliadau sy'n niweidio natur, tra'n cynyddu cymhellion cadarnhaol a all ei hadfer. Rydym wedi ysgrifennu llythyr agored at Lywodraeth Cymru, yn nodi cynnydd ar yr ymyriadau polisi allweddol y gallwn eu cymryd yng Nghymru i wneud ein cyfraniad.



Er ein bod yn edrych ymlaen at y Bil Natur Positif sy'n hwyr iawn yn ymddangos, ni ddisgwylir iddo gael ei gyflwyno tan hanner ffordd drwy 2025, sy'n golygu mae cael a chael fydd hi i'w basio cyn etholiad y Senedd. Gan ei fod yn Fil sydd o'r diwedd yn llenwi'r bwlch llywodraethu, a adawyd ar ôl ers gadael yr UE, ac sy'n ymgorffori'r targedau natur hynny yn y gyfraith, byddai'n dda gennym pe bai hyn wedi'i flaenoriaethu'n uwch yn y rhaglen ddeddfwriaethol. Fodd bynnag, rydym yn parhau i weithio gyda Gweinidogion Cymru a'r Senedd ym mhob ffordd y gallwn, boed hynny'n grwpiau Archwilio Manwl Bioamrywiaeth, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Hyrwyddwyr Rhywogaethau, neu'n rhoi tystiolaeth i bwyllgorau (fel y gwnaethom yn ddiweddar, gyda'u hymchwiliad i golli byd natur). Ond rydym yn teimlo ein bod yn ailadrodd ein hunain ac nid ydym yn gweld y raddfa na'r cyflymder sydd ei angen arnom.


Os byddwn yn cyrraedd 2050, ac mae'n rhaid i ni esbonio i'n plant a'n hwyrion pam mae'r hinsawdd mor anodd, pam nad yw ein bwyd yn tyfu cystal ag yr arferai wneud, neu beth ar y ddaear oedd y creaduriaid hudol hyn a elwir yn eliffant gwalchwyfynnod.... byddwn yn difaru peidio â chymryd hyn mor ddifrifol ag argyfyngau eraill sydd wedi ein hwynebu.

Pwy yw'r Pencampwyr?

Pâl yr Iwerydd - Paul Davies
Heulgi - Luke Fletcher
Chwilen Olew Ddu - Rebecca Evans
Dolffin Trwyn Potel - Joyce Watson
Tegeirian Llydanwyrdd- Carolyn Thomas
Brân Goesgoch - Rhun ap Iorwerth
Cliradain Gymreig - Mabon ap Gwynfor
Dolffin Cyffredin - Sam Rowlands
Llyffant Dafadennog - Jeremy Miles
Gylfinir - Mark Isherwood
Pathew - Peredur Owen Griffiths
Llysywen Ewropeaidd - Dawn Bowden
Corryn Rafftio'r Gors Galch - Sioned Williams
Madfall Ddŵr Gribog - Heledd Fychan
Morlo Llwyd - Sam Kurtz
Llamhidydd yr Harbwr - Janet Finch-Saunders
Draenog - Lee Waters
Y Fritheg Frown - Jane Hutt
Yr Ystlum Pedol Lleiaf - Lesley Griffiths
Morwennol Fechan - Hannah Blythyn
Wystrys Brodorol - Julie James
Troellwr Mawr - Vikki Howells
Brith Perlog - Russell George
Bele'r Coed - Eluned Morgan
Môr-Wyntyll Pinc - Jane Dodds
Y Wiwer Goch - Darren Millar

Ystlumod ar y dibyn

Gan Lil McDermaid, Bat Conservation Trust



Allan o'r 11 o famaliaid yn y DU mewn perygl o ddiflannu, mae 4 ohonynt yn rywogaethau o ystlumod. Maen nhw'n wynebu bygythiadau cyfun sef bod pryfed, eu ffynhonnell fwyd yn prinhau; arferion datblygu anghyfeillgar; a cholli cynefin positif i natur.

Ym mis Mehefin 2024, cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod eu maniffesto cyntaf, yn amlinellu'r camau polisi sydd eu hangen i gefnogi eu hadferiad - gallwch weld y pum gofyniad allweddol uchod. Yn y cyfnod cyn ei gyhoeddi, fe'i rhannwyd â gwleidyddion amrywiol ar draws pleidiau gwleidyddol a'r DU. Nod y gwaith hwn yw siapio eiriolaeth BCT dros y blynyddoedd nesaf, yn enwedig rhwng nawr a phan fydd nifer o dargedau natur naill ai'n cael eu cyflawni neu eu methu yn 2030.

Os oes gennych ddiddordeb mewn darganfod mwy neu helpu i bwyso am y canlyniadau hyn, gallwch ddarllen y maniffesto llawn yma a chysylltu â Lil McDermaid, Swyddog Eiriolaeth Rhywogaethau a Pholisi BCT yn LMcDermaid@bats.org.uk.

Pwy yw'r Pencampwyr?

Yr Eog - Huw Irranca-Davies
Llysywen Dywod- Llŷr Gruffydd
Morwellt - Joel James
Y Siwin - Cefin Campbell
Hwyaden yr Eithin - Jayne Bryant
Y Gardwenynen Feinlais - Delyth Jewell
Y Glesyn Bach - Mike Hedges
Drudwy - Vaughan Gething
Gwennol Ddu - Jenny Rathbone
Llinos y Mynydd- Sian Gwenllian
Llygoden y Dŵr - John Griffiths
Madarch Cap Cwyr.- Julie Morgan
Eryr y Môr - Alun Davies
Cleren Fai Felen - Natasha Asghar
Bras Melyn - Laura Anne Jones

Sut arall alla i gefnogi ystlumod?

Ac eithrio drwy drafodaethau hanfodol gyda llunwyr polisi, gallwch fabwysiadu ystlum neu cysylltwch â'ch grŵp ystlumod agosaf a gofynnwch sut y gallwch chi helpu!



Llun: Ystlum lleiaf, © Hugh Clark, BCT

Glanhau Traethau Prydain Fawr 2024

Gan Elise Lavender, Marine Conservation Society

Mis Medi arall, ac wythnos Glanhau Traethau Prydain Fawr lwyddiannus arall! Rydym wedi cael data o Landudno i'r Barri, ac ni fyddai'n bosibl heb ein gwirfoddolwyr gwych.Nid yn unig y mae'r digwyddiad hwn yn gweld gostyngiad sylweddol mewn sbwriel morol (yn 2023, fe wnaethom dynnu 849kg o sbwriel o draethau Cymru) ond mae'r arolwg manwl yn caniatáu i ni gasglu data penodol ar ba sbwriel sy'n effeithio ar ein hamgylchedd morol a thrwy hynny gefnogi polisïau amgylcheddol allweddol. Wrth i ni barhau i ddadansoddi ein traethau, gallwn olrhain tueddiadau perthnasol i ddatgelu effeithlonrwydd gwaharddiadau, taliadau neu weithdrefnau deddfwriaethol eraill.

Cawsom y pleser hefyd o groesawu Rhun ap Iorwerth, Arweinydd Plaid Cymru, i'n gweithgaredd glanhau traeth Lligwy yn Ynys Môn eleni.



Llun: Gwirfoddolwyr gyda Rhun ap Iorwerth AS ar draeth Lligwy

Yn anffodus, symudwyd y biniau ar y traeth hwn ac mae'n ymddangos ei fod eisoes yn dangos yn ein canlyniadau. Tra mai darnau plastig a phecynnau sydd amlycaf o blith y mathau eraill o sbwriel, daeth ein gwirfoddolwyr ar y diwrnod o hyd i nifer brawychus o boteli gwydr, baw ci mewn bagiau a hyd yn oed grât dân metel pedwar cilo!

Daethom o hyd i 16 potel wydr anhygoel yn ystod y gweithgaredd glanhau hwn o gymharu â 6 chan diod metel. Mae hyn yn sicr yn amlinellu un o'r rhesymau pam mae angen Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS) yng Nghymru sy'n cynnwys gwydr, er mwyn helpu i leihau faint o sbwriel sydd ar ein traethau a sicrhau y gall bywyd morol ffynnu heb beryglon diangen.

Daeth ein gwirfoddolwyr o hyd i 11 o gadachau gwlyb hefyd wrth lanhau traeth Lligwy, sef tua 5% o'r holl sbwriel a ddarganfuwyd ar y diwrnod. O ystyried hyn ochr yn ochr â data'r llynedd (a ddangosodd fod cadachau gwlyb yn bresennol ar 61% o draethau Cymru a arolygwyd), mae'n amlygu'r angen i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â'u bwriad i wahardd cadachau gwlyb sy'n cynnwys plastigau erbyn mis Mehefin 2026.

Cipolwg bach yn unig yw hwn ar rywfaint o'r data rydym yn dod o hyd iddo, ac mae ein tîm Beachwatch yn gweithio'n ddiflino i ddadansoddi holl ddata Glanhau Traethau Prydain Fawr o bob rhan o'r DU. Bydd adroddiad Cyflwr y Traethau allan y flwyddyn nesaf gyda chanlyniadau llawn a manwl o 2024.

Arbed ain heog: faint o amser sydd gennym ni?

A ydym yn gwylio diflaniad rhywogaeth flaenllaw o afonydd Cymru?

Gan Chris Mills, Afonydd Cymru



Mae'r eog yn symbol o ddyfroedd glân, oer ac amgylchedd iach, ond mae ganddynt hanes bywyd cymhleth. Maent yn cychwyn mewn dŵr croyw ond, ar ôl blwyddyn neu ddwy, yn mudo i'r môr lle maent yn bwydo ac yn tyfu ar gyfradd na fyddai byth yn bosibl mewn dŵr croyw. Felly mae eogiaid o hyd at 68 ½ pwys wedi cael eu dal yn afonydd Cymru. Mae eogiaid yn mudo filoedd o filltiroedd i'w mannau bwydo ar y môr, gyda rhai yn teithio cyn belled â'r Ynys Las. Pan fyddant yn barod i silio, maent yn llwyddo i ddod o hyd i'w ffordd yn ôl i'r union afonydd lle cawsant eu geni ac ar ôl dodwy eu hwyau, yn aml yn rhannau uchaf ein hafonydd, mae'r cylch yn dechrau eto. Mae bron yn annirnadwy meddwl y gallem ganiatáu i'r wyrth naturiol hon ddod i ben. Yn ystod y degawd diwethaf, mae stociau eogiaid wedi gostwng i lefelau hanesyddol isel ac os bydd y duedd hon yn parhau, rhagwelir y gallai eogiaid ddiflannu yn o leiaf rhai afonydd Cymru o fewn yr 20 mlynedd nesaf. Y llynedd, cafodd Eogiaid yr Iwerydd eu hailddosbarthu gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur i 'Dan Fygythiad' ym Mhrydain Fawr. Mae'r asesiad stoc eog diweddaraf ar gyfer 2023, sydd newydd gael ei gyhoeddi, yn adrodd y dalfeydd isaf* ers i gofnodion cyson ddechrau yn y 1970au a gostyngiad o 70% dros y 10 mlynedd diwethaf. At hynny, mae pob un o'r 23 prif afon eogiaid yng Nghymru wedi'u dosbarthu fel rhai sydd mewn perygl o fethu â chyrraedd y lefelau bridio trothwy sy'n angenrheidiol i gynnal y poblogaethau.

Priodolwyd y gostyngiad cychwynnol yn niferoedd eogiaid i effeithiau newid hinsawdd ar y môr. Fodd bynnag, yn fwy diweddar, ni ellir cyfrif am y dirywiad yn eu goroesiad yn nhermau goroesiad morol yn unig. Mae'n ymddangos bod cyfraddau goroesi dŵr croyw hefyd wedi gostwng o bosibl hyd at 40%. Felly, beth sydd wedi newid? Mae goroesiad eogiaid mewn dŵr croyw bob amser wedi cael ei effeithio gan lygredd, ysglyfaethu, a rhwystrau i fudo i fyny ac i lawr yr afon. Mae'r hyn sydd wedi newid eto fwy na thebyg i'w briodoli i newid hinsawdd. Gall tymereddau dŵr uwch mewn afonydd yn yr haf a'r gaeaf, a llifoedd dŵr uwch ac is, effeithio ar eogiaid llawn dwf ac eogiaid ifanc. Mae llifogydd dinistriol diweddar yn y gaeaf hefyd yn gallu dinistrio claddau eog; ceudodau o fewn y gro lle mae wyau eog yn cael eu dyddodi.



Mae Afonydd Cymru - y corff ymbarél ar gyfer 6 Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru - yn gweithio ar lawr gwlad ledled Cymru i ddiogelu afonydd rhag llawer o'r ffactorau sy'n lleihau goroesiad eogiaid. Rydym hefyd yn cydweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru i geisio nodi'r materion a allai fod yn hollbwysig i fynd i'r afael â hwy. Fodd bynnag, nid yw amser o'n plaid ni felly os ydym am atal y dirywiad mewn goroesiad eogiaid ac atal eog yr Iwerydd yng Nghymru rhag diflannu mae angen inni weithredu ar lawer mwy o frys. Mae eogiaid gwyllt, a fu unwaith yn ffynhonnell fwyd doreithiog, bellach yn rhywogaeth gadwraeth ac yn anffodus yn rhan o'r argyfwng natur. Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth a diddordeb personol parhaus y Dirprwy Brif Weinidog - Huw Irranca-Davies - fel Hyrwyddwr Rhywogaeth Eog WEL ac Ysgrifennydd y Cabinet sy'n gyfrifol am bysgodfeydd.
*Ers 2020, rhaid i bob eog sy'n cael ei ddal â rhwyd neu wialen gael ei ryddhau.

Ailgyflwyno Tormaen Gwyddelig i'r gwyllt yng Nghymru, ar ôl absenoldeb o 62 mlynedd

Gan Lizzie Wilberforce, Plantlife Cymru

Mae Tormaen Gwyddelig, planhigyn bychan ond deniadol gyda dail llac a blodau gwyn cain, wedi'i ddychwelyd i Gymru.



Llun: Blodyn Tormaen Gwyddelig, © Llyr Hughes

Yn 1962, gwnaeth Tormaen Gwyddelig - *Saxifraga rosacea isrywogaeth rosacea* - lithro i ddifodiant yng Nghymru. Credir ei fod wedi'i golli o ganlyniad i ddylanwadau negyddol hirdymor ar ei boblogaeth fechan a bregus yn Eryri: gor-gasglu hanesyddol gan selogion planhigion Fictoraidd, a llygredd nitrogen atmosfferig mwy modern sy'n ffafrio planhigion eraill, mwy cystadleuol.

Yn ffodus, cafodd y rhywogaeth ei pharhau drwy ei thrin, gyda botanegwyr yn gofalu'n ofalus am blanhigion sy'n deillio o boblogaeth wreiddiol Eryri, gan gadw eu llinach.

Yn 2024, trwy waith y rhaglen Natur am Byth, mae Plantlife wedi gallu ailgyflwyno'r rhywogaeth yn ôl i'r gwyllt. Arweiniwyd yr ailgyflwyno llwyddiannus gan fotanegydd Plantlife, Robbie Blackhall-Miles, Swyddog Prosiect ar gyfer prosiect Tlysau Mynydd Eryri, sy'n gweithio i sicrhau dyfodol rhai o'n planhigion a'n infertebratau alpaidd prinnaf yng Nghymru.

Digwyddodd yr allblannu ar dir y gofelir amdano gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac yn y blynyddoedd i ddod, bydd botanegwyr yn cynnal arolygon i sefydlu'r mannau gorau i ailgyflwyno'r rhywogaeth yn llawn i'r gwyllt. Gobeithio yn fuan y bydd yn ôl ar lethrau ac agennau creigiau llawn calsiwm Eryri, lle mae'n perthyn.

Mae'r ailgyflwyno hwn yn foment enfawr i'r rhaglen Natur am Byth ac i gadwraeth rhai o'n planhigion arctig alpaidd mwyaf arbennig.

Gallwch ddilyn gwaith prosiect Tlysau Mynydd Eryri ar Instagram (nab_tlysaueryri) a Natur am Byth ar X (@NaturAmByth).



Llun: Robbie Blackhall-Miles gyda'r planhigyn, © Llyr Hughes

Mae Natur am Byth yn uno naw elusen amgylcheddol a Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflwyno rhaglen treftadaeth naturiol ac allgymorth fwyaf y wlad i achub rhywogaethau rhag difodiant ac ailgysylltu pobl â byd natur. Fe'i hariennir gan £4.1 miliwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol gyda mwy o arian gan Lywodraeth Cymru, Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, Cyfoeth Naturiol Cymru, Sefydliad Esmée Fairbairn, Cyngor Celfyddydau Cymru, Ymddiriedolaeth Banister, Yswiriant Animal Friends a rhoddwyr hael eraill.

Cefnogi'r Fritheg Frown mewn Argyfwng Gloynnod Byw

Gan Alan Sumnall, Dot Williams & Andrew Rowe, Butterfly Conservation

Ym mis Medi, cwblhawyd blwyddyn gyntaf 'Natur am Byth' yng Nghymru. Mae'r fenter 4-blynedd gwerth £8m hon wedi dod â 10 o sefydliadau o bob rhan o Gymru ynghyd i ddarparu rhaglen treftadaeth naturiol ac allgymorth fwyaf y wlad i achub rhywogaethau Cymru sydd dan y bygythiad mwyaf. Mae Butterfly Conservation yn arwain y prosiect i achub y Fritheg Frown (y glöyn byw sydd yn y perygl mwyaf yn y DU), gan ganolbwyntio ar Fro Morgannwg fel ei safle olaf yng Nghymru.



Llun: Glöyn byw y fritheg frown, © Alan Sumnall

Mae Jane Hutt, ei Hyrwyddwr Rhywogaeth, wedi bod yn rhoi ei chefnogaeth barhaus inni, yn enwedig wrth godi ymwybyddiaeth o'r rhywogaeth a phwysigrwydd cofnodi a gweithredu. Ni allai'r gefnogaeth hon ddod ar adeg fwy tyngedfennol. Mae Butterfly Conservation newydd ddatgan 'Argyfwng Glöynnod Byw' cenedlaethol ac yn gofyn i bobl lofnodi ein llythyr agored. Mae canlyniadau Cyfrif Mawr y Glöynnod Byw yr haf hwn wedi dangos gostyngiad nodedig a brawychus yn y niferoedd. Cofnodwyd cyfanswm o ychydig dros 935,000 o loÿnnod byw a gwyfynod sy'n hedfan yn ystod y dydd ledled y DU rhwng 12 Gorffennaf a 4 Awst, i lawr bron i 600,000 ers 2023. Yng Nghymru, cofnodwyd ychydig dros 40,500 o löynnod byw a gwyfynod sy'n hedfan yn ystod y dydd targed ledled Cymru, gostyngiad o fwy na 35% ers 2023. Y nifer cyfartalog a gafodd eu cyfrif oedd yr isaf yn hanes y cyfrif. Y pum rhywogaeth uchaf a gofnodwyd yng Nghymru oedd Gweirlöyn y Ddôl, Glöyn Mawr Gwyn, Gweirlöyn y Perthi, Glöyn Bach Gwyn Gweirlöyn y Glaw. Dangosodd gyfanswm o 85% o rywogaethau a gyfrifwyd yng Nghymru ostyngiad, gyda'r Fantell Goch yn dangos y gostyngiad mwyaf ar lefel gwlad (-86%). Mae'r holl ganlyniadau i'w gweld yma.

Mae safle Bro Morgannwg yn un o'r ardaloedd gorau yng Nghymru i weld ystod eang o löynnod byw – ond hyd yn oed yma, mae cymaint yn llai nag y dylai fod. Yn ystod ymweliad heulog â'r safle ym mis Gorffennaf, bu Jane yn helpu gyda'i chyfraniad ei hun i Gyfrif Mawr y Glöynnod Byw. Cofnodwyd 20 o unigolion o wyth rhywogaeth. Roedd hyn yn cymharu'n ffafriol â'r darlun cenedlaethol cyffredinol, lle gwelodd y cyfranogwyr saith glöyn byw yn unig ar gyfartaledd bob 15 munud. Ond darlun cymysg ydyw; mae data cyffredinol o'r safle yn dangos ei fod wedi bod yn un o'r blynyddoedd gwaethaf i'r Fritheg Frown hefyd. Mae'r ffigurau hyn yn frawychus oherwydd bod glöynnod byw yn rhywogaeth ddangosol allweddol; pan fyddant mewn trafferth, rydym yn gwybod bod yr amgylchedd ehangach mewn trafferth hefyd. Dyna pam mae cyfleu'r neges i bobl mor bwysig a pham yr ydym yn gwerthfawrogi cefnogaeth a chyfranogiad Jane mor fawr.




Lluniau: Jane Hutt gyda Dot Williams ac Andrea Rowe, staff Butterfly Conservation a Natur am Byth

Maint yr angen i gefnogi ffermio cynaliadwy

Adroddiad wedi'i ddiweddaru yn cyfrifo costau systemau ffermio sy'n addas ar gyfer y dyfodol

Fis diwethaf, diweddarodd Cyswllt Amgylchedd Cymru ein Hadroddiad Llwybrau i 2030 - ein cynigion wedi'u costio ar gyfer atebion sy'n seiliedig ar natur a all gyrraedd ein targedau bioamrywiaeth - gyda chostau i ystyried chwyddiant ac, yn fwyaf cyfredol, ffigurau llawnach ar gyfer ffermio cynaliadwy. Roedd ein hadroddiad blaenorol yn nodi ffigurau 2023 a chostau rheoli tir cynaliadwy ar gyfer ffermio sy'n ystyriol o natur. Diolch i'r RSPB, yr Ymddiriedolaethau Natur a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn adolygu eu costau yn eu hadroddiad defnyddiol - 'For Farming, Nature & Climate' - rydym bellach wedi cyfrifo costau ffermio cynaliadwy ar gyfer cyrraedd targedau natur a sero net yng Nghymru.



Fel mae WWF Cymru wedi nodi, mae ffermio yn cyfrif am 14% o allyriadau carbon Cymru, gan godi mewn gwirionedd yn y degawd diwethaf rhwng 2010 a 2020. Mae ffermwyr yn stiwardiaid ein tir a gallant wneud gwahaniaeth enfawr ar gyfer storio carbon ac adfer byd natur. Heb eu cymorth, ni fyddwn yn gallu cyrraedd ein targedau natur na sero net, gan fod 80% o dir Cymru yn cael ei reoli ar gyfer amaethyddiaeth. Rhaid ystyried y brys hwn a'r angen am newid sylweddol wrth i benderfyniadau terfynol gael eu gwneud ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Rydym yn falch bod ein haelodau wedi bod yn rhan o waith Bord Gron y Gweinidog ac Atafaelu Carbon, ac edrychwn ymlaen at gyhoeddiadau yn ddiweddarach eleni ar y ffordd ymlaen ar gyfer sawl elfen o'r cynllun.

Natur am Byth

Rydym wedi tynnu sylw at rai o brosiectau Natur am Byth yn y cylchlythyr hwn ac roeddem am gyfeirio at ragor o wybodaeth yma.

Diolch i'r sylfaenwyr isod, mae'n sicrhau - o leiaf tan fis Medi 2027 - bod gwaith adfer hanfodol sy'n benodol i rywogaethau yn digwydd yng Nghymru.

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi
WCVA CGGC
Landfill Disposals Tax Communities Scheme
Esmée Fairbairn Foundation
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales



BETH YW'R PROSIECT PENCAMPWR RHYWOGAETHAU?

Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn gweithio gyda'n haelodau eNGO unigol i recriwtio Aelodau o'r Senedd fel Pencampwr Rhywogaethau, i noddi bywyd gwyllt sydd mewn perygl. Mae'n rhaid dod o hyd i'r rhywogaeth fel arfer yn ei hetholaeth ac fe'i hystyrir yn fwy 'mewn perygl' na'r cyfartaledd.Drwy ymrwymo i fod yn Bencampwr, gall Aelodau o'r Senedd ddysgu am y rhywogaethau a beth sydd angen ei wneud i atal eu dirywiad. Yr aelodau sy'n cymryd rhan ar hyn o bryd yw: RSPB, Ymddiriedolaethau Natur Cymru, Wild Fish, Afonydd Cymru, Buglife, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn, Plantlife, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Cadwraeth Gloÿnnod Byw, Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid, Y Gymdeithas Cadwraeth Forol a Chadwraeth Morfilod a Dolffiniaid. Gallwch ddal i fyny ar gylchlythyrau blaenorol sy'n rhedeg ers 2017 ar y ddolen yma.